**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

---

Mae sicrhau bod myfyrwyr yn cadw'n iach yn ystod eu hamser yn y brifysgol yn bwysig iawn i ni i'w helpu i wireddu eu huchelgeisiau a chael y gorau o'u profiad prifysgol.

Mae'n hanfodol ein bod yn creu amgylchedd lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu cyflwr iechyd meddwl fel y gellir rhoi cymorth a gwasanaethau priodol ar waith i'w cefnogi a'u helpu i lwyddo a manteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y brifysgol.

Rydym yn cymeradwyo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am y gwaith y mae wedi'i wneud mewn partneriaeth â'r sector i ddatblygu dull strategol ac ymgorffori iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl a dulliau sy'n fwy diogel rhag hunanladdiad, yn eu polisïau a'u harferion.

Mae ein sefydliadau hefyd wedi dangos ymrwymiad cryf, gan weithio gyda CCAUC, i wella'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff a myfyrwyr. Rydym wedi gweld cynnydd da gan y sector addysg uwch, CCAUC, Prifysgolion Cymru ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, gan gydweithio ag elusennau iechyd blaenllaw ac asiantaethau eraill, i wneud ein hamgylchedd addysg uwch yn lle mwy diogel i staff a myfyrwyr weithio ynddo.

Yng ngoleuni'r trawsnewid i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, mae'n bwysig bod datblygiad polisi pellach yn y maes hwn yn dechrau bwrw golwg ehangach ar y sector addysg drydyddol pan fo hynny'n bosibl. Rydym yn ystyriol yn ein hymateb o'r argymhellion bod y gallu i wneud hyn o bosibl wedi'i gyfyngu nes bod y Comisiwn yn dod yn gwbl weithredol yn 2024. Rydym hefyd yn ystyriol o'r ffaith bod y Pwyllgor, yn ystod hynt y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Hoffem felly osgoi ymrwymo'r Comisiwn i gynlluniau polisi penodol cyn iddo gael ei sefydlu, gan roi'r lle iddo ystyried adroddiad y Pwyllgor ei hun yn rhan o'i ystyriaethau strategol ehangach.

Hoffem ddiolch i aelodau'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** am eu hadroddiad ar Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch. Rydym yn arbennig o falch o weld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd â'n cynlluniau ni ar gyfer heddiw ac yfory, gyda llawer ohonynt eisoes yn cael sylw gan y sector.

Mae ymatebion manwl i argymhellion unigol yr adroddiad i'w gweld isod.

**Argymhelliad 1**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ar y cyd â CCAUC a'r Comisiwn newydd ddwyn ynghyd set ddata y maent am ei chasglu gan ddarparwyr addysg uwch sy'n darparu data cywir ac amserol ar hyd a lled y problemau iechyd meddwl yn eu corff myfyrwyr; demograffeg y rhai sy'n datgan trallod iechyd meddwl; yr ymyriadau y maent yn eu rhoi ar waith; a gwerthusiad o'r ymyriadau. Wrth lunio'r set ddata hon, rhaid rhoi sicrwydd cadarn, a rhoi mesurau diogelu ar waith, i sicrhau os yw'r data'n awgrymu bod problemau mewn sefydliad arbennig, na fydd hynny'n cael effaith negyddol, cyn belled ag y gall y sefydliad ddangos pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Rhaid bod modd dadgyfuno'r data i ddeall y patrymau a'r tueddiadau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol, ac a oes unrhyw grwpiau penodol yn wynebu heriau ychwanegol wrth geisio cymorth, a'r rhwystrau. Bydd hyn yn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a dyraniadau cyllid, yn y sector addysg a'r sector gofal iechyd. Dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC weithio gyda'i gilydd i gefnogi dealltwriaeth well o angen myfyrwyr am gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae hon yn rhaglen waith fawr, gymhleth a hirdymor a mater i'r Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd nodi'r data sydd i'w gasglu, a chytuno ac ymgynghori arno, yn ogystal â nodi'r dibenion ar ei gyfer a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio. Bydd gan y Comisiwn swyddogaethau statudol mewn perthynas â lles a llesiant myfyrwyr a bydd yn nodi disgwyliadau sefydliadau er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno.

Caiff yr argymhelliad hwn ei dderbyn yn rhannol fel a ganlyn. Rydym yn derbyn bod casglu data fel a ddisgrifir yn yr argymhelliad yn werthfawr ac y dylai hynny fod yn ddisgwyliad ar bob sefydliad. Byddwn yn gweithio gyda CCAUC a hefyd, maes o law, gyda'r Comisiwn, i sicrhau bod hynny yn ei le. Mae sefydliadau eisoes yn casglu data at eu dibenion eu hunain, ond bydd hyn mewn ffyrdd gwahanol a chan ddefnyddio systemau gwahanol. Nid ydym yn derbyn bod creu sylfaen ddata ar wahân i system y sefydliadau yn ei hanfod yn fwy defnyddiol. Er hynny, dylid gweithio tuag at sicrhau ffordd ddibynadwy ar gyfer y system gyfan o nodi'r materion y tynnir sylw atynt yn yr argymhelliad a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau i asesu sut y gellir cyflawni hynny.

Mae peth data  yn ymwneud ag iechyd meddwl myfyrwyr eisoes ar gael yn gyhoeddus, gan gynnwys gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Fodd bynnag, rydym yn derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC weithio gyda'i gilydd i nodi'r ffordd fwyaf priodol o rannu canfyddiadau â'r cyhoedd i gefnogi gwell dealltwriaeth o anghenion myfyrwyr am gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, er mwyn cyfoethogi dull gweithredu y Comisiwn yn y maes gyda hyn.

**Goblygiadau Ariannol –** I'w penderfynu gan y Comisiwn fel rhan o'i ddyraniad cyllideb.

**Argymhelliad 2**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Mae angen i Lywodraeth Cymru, CCAUC, y Comisiwn newydd, darparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr myfyrwyr weithio gyda'i gilydd i osod lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan ystyried anghenion penodol y gwahanol grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol. Gall hyn olygu datblygu rhwydweithiau cymheiriaid penodol ar gyfer grwpiau myfyrwyr rhyngwladol. Ni ddylai'r lefel sylfaenol hon o ddarpariaeth fod yn rhy ragnodol, gan y bydd angen i bob darparwr addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu anghenion penodol ei fyfyrwyr, ac ystyried amgylchiadau ei sefydliad ei hun, ond dylai sicrhau bod lefel ofynnol glir o gymorth y gall pob myfyriwr rhyngwladol ledled Cymru wybod y gall gael gafael arni. Dylid hyrwyddo'r fframwaith hwn mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd gwahanol rannau o'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol, o'r cam cyn ymgeisio i'r cyfnod ar ôl graddio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r sector ystyried sut mae'n cefnogi myfyrwyr rhyngwladol ac i rannu arferion gorau.

Mae CCAUC ar hyn o bryd yn cyllido cymorth ar gyfer llesiant ac iechyd yn y sector, gan gynnwys cyllid ar gyfer strategaethau iechyd meddwl a strategaethau i sicrhau bod prifysgolion yn fwy diogel rhag hunanladdiad gydag o leiaf £2 miliwn y flwyddyn (cyllid hirdymor). Mae'r cyllid hwn yn cefnogi gwasanaethau myfyrwyr a phob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol.

Mae CCAUC hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol i bob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, a hynny drwy gymorth Covid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae CCAUC yn gweithio'n agos gydag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru) i roi mwy o lais i bob myfyriwr yn y broses reoleiddio. Mae CCAUC hefyd yn cysylltu ag undebau myfyrwyr i geisio eglurhad ar y modd y mae llais pob myfyriwr (gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol) yn cyfrannu at eu gwaith.

Mae CCAUC yn bwriadu cynnal dadansoddiad pellach o ddata myfyrwyr (ee cynnydd, cyrhaeddiad etc) yn ôl preswylfan, a defnyddio'r wybodaeth hon yn ei brosesau adolygu ansawdd a risg sefydliadol.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd costau'n parhau i gael eu talu o ddyraniad cyllideb presennol CCAUC.

**Argymhelliad 3**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau gofal iechyd a gofal cymdeithasol, mae angen i Lywodraeth Cymru, CCAUC, y Comisiwn newydd, darparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr myfyrwyr nodi'r heriau a'r rhwystrau penodol sy'n eu hwynebu a datblygu lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau hyn o fyfyrwyr, gan ystyried anghenion penodol y gwahanol grwpiau sy'n ffurfio'r carfanau hyn o fyfyrwyr. Ni ddylai'r lefel sylfaenol hon o ddarpariaeth fod yn rhy ragnodol, gan y bydd angen i bob darparwr addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu anghenion penodol ei garfan, y cyrsiau a gyflwynir ganddo, y mathau o leoliadau y mae'r cyrsiau hyn yn eu cynnal

ac ystyried amgylchiadau ei Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch sefydliad ei hun, ond dylai sicrhau bod lefel ofynnol glir o gymorth y gall pob myfyriwr ar y cyrsiau hyn ledled Cymru wybod y gall gael gafael arni. Dylid hyrwyddo'r fframwaith hwn mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd gwahanol grwpiau o'r myfyrwyr hyn, o'r cam cyn ymgeisio hyd y byddant yn graddio.

**Ymateb: Derbyn**

Cyfrifoldeb Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw comisiynu addysg a hyfforddiant iechyd. Mae profiad myfyrwyr yn un o'u hystyriaethau pan fyddant yn dyfarnu contractau i sefydliadau addysg uwch, gan gynnwys darparu gwasanaethau llesiant a chymorth iechyd meddwl.

Mae llesiant myfyrwyr yn thema allweddol yn y contractau addysg newydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gomisiynwyd gan AaGIC, ac mae cydymffurfio â darparu cymorth llesiant i fyfyrwyr yn rhan o'u Fframwaith Perfformiad ac Ansawdd.

Mae gofynion o ran llesiant myfyrwyr wedi'u hymgorffori yn y contract newydd fel a ganlyn:

**Llesiant Myfyrwyr**

1.1 Cyfrifoldeb y darparwr addysg yw darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau llesiant myfyrwyr sy'n cael eu cyflwyno'n broffesiynol ac sy'n ymgorffori cymorth gan gymheiriaid pan fo hynny'n briodol. Rhaid i'r gwasanaethau fod yn ddi-dâl, yn ddiduedd, yn anfeirniadol ac yn gyfrinachol.

1.2 Bydd darparwyr addysg yn darparu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sy'n cael eu marchnata'n glir i fyfyrwyr ac sy'n hygyrch, a rhaid iddynt gynnwys:

> 1.2.1 Cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr ag anableddau ac anawsterau iechyd meddwl
>
> 1.2.2 Sgrinio a chymorth i fyfyrwyr sy'n niwrowahanol
>
> 1.2.3 Cwnsela, cymorth a chyngor llesiant a mecanwaith i fynd i'r afael â myfyrwyr mewn argyfwng (rhaid cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ar y campws agosaf at y myfyriwr neu ar leoliad, apwyntiadau ffôn ac ar-lein, gwasanaethau galw heibio, gweithdai ac adnoddau hunangymorth)
>
> 1.2.4 Cyngor arbenigol, gan gynnwys cymorth gyda chyllid myfyrwyr; dyled; tai; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; ac ymarfer crefydd
>
> 1.2.5 Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol
>
> 1.2.6 Datblygu sgiliau academaidd a chyflogadwyedd
>
> 1.2.7 Cymorth i lywio'r broses gwynion wrth godi problem yn y lleoliad academaidd neu ar leoliad

Mae CCAUC yn gweithio gyda sefydliadau ac AaGIC er mwyn sicrhau bod y ddau sefydliad yn cymryd ymagwedd gydgysylltiedig tuag at ddarparu addysg iechyd a

materion sy’n effeithio ar fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn ceisio sefydlu trefniant ymgysylltu tebyg â Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol gan fod y gwaith o ddarparu gwasanaethau llesiant a chymorth iechyd meddwl wedi’i gynnwys yn y contract.

**Argymhelliad 4**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o effeithiau’r pandemig ar barodrwydd ar gyfer addysg uwch a phontio i addysg uwch. Dylai hyn wedyn helpu i nodi unrhyw effeithiau hirdymor a pha arferion da o’r pandemig y dylid eu prif ffrydio mewn busnes fel arfer; a darparu sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer ymyriadau’r dyfodol. Dylid cyhoeddi canfyddiadau’r gwerthusiad hwn, a dylai Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn eu defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu, canllawiau a chyngor.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn derbyn yr angen am werthusiad o’r math a ddisgrifir yn yr argymhelliad ac y dylai gael ei ddefnyddio i lywio polisi yn y ffordd a gynigir. Rydym eisoes wedi comisiynu gwaith yn y maes hwn ac am weld canlyniadau’r gwaith hwnnw i asesu a oes angen unrhyw waith pellach i fodloni telerau’r argymhelliad.

Mae’r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, a gynhelir bob dwy flynedd, yn arolwg cenedlaethol annibynnol cadarn, sy’n darparu data o ansawdd uchel ynghylch iechyd a llesiant tua 120,000 o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru. Fe’i cynhelir fel rhan o’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) – sef cydweithrediad a arweinir gan Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cancer Research UK.

Disgwylir cynnal y rownd casglu data nesaf o fis Medi 2023 ymlaen. Mae data a gasglwyd cyn ac ar ôl pandemig COVID-19 yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut mae iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, perthnasoedd cymdeithasol ac ymwneud pobl ifanc â’r ysgol wedi newid yn ystod y cyfnod hwn.

Yn 2020/21, cafodd dysgwyr a oedd yn paratoi ar gyfer arholiadau ac yn cynllunio i symud ymlaen i addysg uwch eu heffeithio’n sylweddol gan bandemig COVID-19. Ym mis Chwefror 2021, gofynnwyd i brifysgolion yng Nghymru weithio gyda’i gilydd i gefnogi’r dysgwyr hyn i bontio i addysg uwch. Mae’r Brifysgol Agored a holl brifysgolion Cymru wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf (2022-2025) i weithio ar y cyd i ddatblygu Hwb Barod ar gyfer Prifysgol. Y nod yw sicrhau bod adnoddau yn berthnasol ac yn gyfredol er mwyn bod o fudd i ddysgwyr presennol a rhai newydd.

Cynhelir Hwb Barod ar gyfer Prifysgol ar lwyfan OpenLearn y Brifysgol Agored ac mae’n cynnwys cannoedd o adnoddau unigryw gan gynnwys fideos, podlediadau, erthyglau, rhaglenni rhyngweithiol byr a chyrsiau ar-lein. Mae’r adnoddau hyn yn

darparu canllawiau i ddysgwyr ôl-16, eu rhieni a'u hathrawon ar bontio i addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd y prosiect yn agos gan gynnwys cyrhaeddiad ac effaith.

Ym mis Ebrill 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o effeithiolrwydd cyllid cysylltiedig â COVID-19 a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

Bydd y gwerthusiad yn rhoi tystiolaeth ar:

- Sut mae'r cyllid wedi cefnogi'r sector
- Sut mae'r gronfa adfer ôl-16 wedi cael ei defnyddio'n ymarferol
- Dulliau effeithiol o addysgu a dysgu
- Pryderon y sector
- Cydweithio ar draws y sector
- Sut y gall y cyllid gefnogi heriau sy'n bodoli a heriau yn y dyfodol er mwyn i ddysgwyr allu cyrraedd eu llawn botensial

Gall y gwerthusiad ddarparu gwybodaeth ansoddol gyfyngedig am barodrwydd ar gyfer addysg uwch, a phontio iddo. Mae disgwyl i adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae'r costau gwerthuso yn cael eu talu o'r gyllideb bresennol. Bydd unrhyw ofynion cyllido ychwanegol yn ddibynnol ar ganlyniad y gwerthusiad.

**Argymhelliad 5**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Yn y byrdymor, dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC weithio i barhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd dysgu cyfunol a chymorth lles myfyrwyr a hwyluso rhannu arferion da ar draws y sector. Rhaid i'r gwaith hwn gynnwys llais a phrofiadau staff a myfyrwyr i nodi'r hyn sy'n gweithio'n effeithiol ac nad yw'n gweithio'n effeithiol. Dylai CCAUC ac yna'r Comisiwn barhau i gyhoeddi diweddariadau rheolaidd i lywio arferion da sy'n esblygu yn y maes hwn.

**Ymateb – Derbyn**

Mae CCAUC wedi monitro defnydd prifysgolion o ddysgu cyfunol yn ystod y pandemig ac yn fwy diweddar. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn comisiynu gwaith ar brofiad o addysg uwch, gan gynnwys y defnydd o ddysgu cyfunol a hyblyg, er mwyn deall sut beth yw addysg uwch ar ôl y pandemig. Bydd hyn yn rhoi sylfaen dystiolaeth gyfredol i'r Comisiwn y gellir ei defnyddio i ddatblygu polisi.

Mae CCAUC hefyd wedi gosod disgwyliadau ar bob prifysgol i adolygu ei gwasanaethau myfyrwyr gan ddefnyddio'r offeryn hunanasesu 'Stepchange' sydd ar gael ledled y DU. Mae CCAUC yn monitro cynnydd prifysgolion tuag at weithredu'r argymhellion yn eu hasesiad.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei gefnogi gan ddyraniadau cyllideb presennol fel rhan o gylch gwaith CCAUC.

**Argymhelliad 6**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ar y cyd â CCAUC barhau i fonitro'r pwysau ar ddarparwyr i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol. Yn benodol, dylid talu sylw agos at y cysylltiad rhwng cyfraddau rhoi'r gorau i astudio a chyfraddau cyrhaeddiad a'r angen i gael cymorth caledi ariannol. Os yw darparwyr yn ei chael hi'n anodd ateb y galw, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ddarparwyr.

**Ymateb – Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda CCAUC a, phan fo angen, yn ei arwain drwy ein prosesau arferol i symud hyn yn ei flaen. Mae CCAUC eisoes yn monitro cyfraddau cadw a chwblhau darpariaeth addysg uwch yn flynyddol a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn asesu tueddiadau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu ymrwymiad pen agored i ddarparu cyllid canol blwyddyn pellach ond yn fwyaf diweddar mae wedi dyrannu £2.3m o gyllid ychwanegol i CCAUC ym mis Ionawr 2023 ar gyfer iechyd a llesiant a chaledi ariannol.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd blaenoriaethau cyllido yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau pennu cyllidebau gyda CCAUC a'r Comisiwn.

**Argymhelliad 7**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Wrth lunio unrhyw fesurau ar gyfer cymorth gyda chostau byw, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yr anghenion a'r heriau penodol sy'n wynebu pob myfyriwr, yn cynnwys myfyrwyr ôl-raddedig. Wrth gyhoeddi unrhyw gymorth, rhaid iddynt amlinellu'n glir sut maent wedi mynd i'r afael â'r heriau hyn sy'n wynebu myfyrwyr. Yn arbennig, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried na fydd rhai myfyrwyr yn gallu manteisio ar fudd-daliadau fel y Credyd Cynhwysol, neu efallai na fyddant yn gallu cael unrhyw un o fudd-daliadau'r DU (megis myfyrwyr rhyngwladol) neu'n wynebu rhwystrau wrth geisio sicrhau neu gynyddu nifer yr oriau y maent yn gweithio (megis myfyrwyr ôl-raddedig).

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gweithio'n agos gyda CCAUC i sicrhau bod anghenion penodol myfyrwyr yn cael eu hystyried ac yn asesu effaith y trefniadau ariannol sydd ar waith ar gyfer pob carfan yn rheolaidd. Mae symiau'r cymorth cynhaliaeth statudol i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r polisi a sefydlwyd fel rhan o adolygiad Diamond.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd blynyddol o 9.4% ar gyfer blwyddyn academaidd 23/24.

Er ein bod yn cydnabod anghenion a heriau penodol a wynebir gan rai carfannau o fyfyrwyr (fel myfyrwyr ôl-raddedig), efallai na fyddwn yn gallu mynd i'r afael â hwy drwy fesurau cymorth i fyfyrwyr. Gall anghenion myfyrwyr ôl-raddedig er enghraifft fod yn fwy cymhleth na'r hyn y gall y gyfundrefn cyllid myfyrwyr ei hun fynd i'r afael ag ef yn llawn.

O ran pryderon y Pwyllgor nad yw myfyrwyr yn manteisio ar bopeth y mae ganddynt hawl iddo, rydym yn gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol ac yn amserol. Rydym hefyd yn targedu grwpiau penodol pan fo hynny'n briodol.

Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio'n agos gydag NASMA Cymru (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr) fel y gallant sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod myfyrwyr yn ymgeisio am bopeth y mae ganddynt hawl iddo a'u bod yn cael eu hatgyfeirio at brosesau caledi Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer cymorth i fyfyrwyr pan fo hynny'n briodol. Mae NASMA yn gweithredu fel sianel rhwng nifer o fecanweithiau cymorth i sicrhau bod cyllid yn cael ei roi i fyfyrwyr sydd ei angen.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae costau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu haddasu pan fo angen.

### Argymhelliad 8

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi i ni wybodaeth reolaidd ac unrhyw ddata sydd ar gael am gyflwyno'r dull system gyfan yn maes addysg ôl-16. Dylid darparu'r Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch wybodaeth hon ddwywaith y flwyddyn a dylai roi i ni'r wybodaeth i ddeall yr effaith y mae cyflwyno'r system yn ei chael ar les emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, yn ogystal â'r graddau y mae'n magu gwydnwch.

### Ymateb – Derbyn yn rhannol

Yn ddiweddar, rydym wedi cytuno ar ein trefniadau llywodraethu ac adrodd ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan (yr agwedd addysg ar y dull system gyfan ehangach, sef NYTH). Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni newydd, a gynullwyd ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn cael ei gynnal ym mis Mai. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r bwrdd hwn. Bydd gan y bwrdd newydd ffocws penodol ar sicrhau bod ein canllawiau statudol ar gyfer y dull ysgol gyfan a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn cael eu gweithredu. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n gysylltiedig â hynny gan gynnwys sefydlu gwasanaeth allgymorth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn ysgolion, y modd mae ysgolion yn gweithredu ac yn defnyddio'r canllawiau statudol,

gwella ac ymestyn gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned, a llesiant y gweithlu ysgol.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad yn rhannol fel a ganlyn. Rydym yn derbyn yr argymhelliad i ddarparu gwybodaeth reolaidd ac unrhyw ddata sydd ar gael ar gyflwyno'r dull system gyfan mewn addysg cyn-16. Nid ydym fodd bynnag yn credu mai adroddiad ddwywaith y flwyddyn fyddai fwyaf defnyddiol, ac yn awgrymu bod un adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu'r flwyddyn academaidd yn fwy buddiol. Bydd yr adroddiad cyntaf o'r fath (yn cwmpasu blwyddyn academaidd 2022-23) yn cael ei ddarparu diwedd 2023/dechrau 2024. Fodd bynnag, rydym yn fodlon o hyd i'r Cadeirydd ymuno â'r bwrdd (neu yn wir iddo fod yn bresennol i arsylwi), pe bai hyn o fudd i'r pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 9**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag CCAUC a'r Comisiwn newydd, gomisiynu gwaith yn edrych ar bontio addysgol o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol ar draws y byd. Dylai'r gwaith hwn nodi arferion da y gellid eu trosglwyddo i sector Cymru, dylid ei gyhoeddi a'i ddefnyddio i lywio polisïau'r dyfodol yn y maes pwysig hwn.

**Ymateb – Derbyn**

Mae pontio o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol a thrwy wahanol rannau o'r system addysg ôl-orfodol yn amlwg o bwysigrwydd hanfodol i lesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr. Mae ein gwaith eisoes yn manteisio ar arferion o fannau eraill ynghyd ag arferion o Gymru. Mae CCAUC wedi comisiynu ac eisoes wedi cyhoeddi dros 70 o astudiaethau achos o arferion da mewn perthynas â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ym maes addysg uwch yng Nghymru. Mae nifer o'r rhain yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir yn ystod pontio rhwng y cyfnodau addysg.

Rydym yn derbyn bod deall a rhannu arferion da yn well, yn ogystal ag ymchwilio'n well iddynt yn hanfodol i wella ymarfer yn y maes hwn. Fodd bynnag, gan adeiladu ar waith a ariennir gan CCAUC yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mater i'r Comisiwn fydd penderfynu'n union sut y dylid gwneud hyn, fel rhan o'i gyfrifoldebau ehangach gan weithio gyda darparwyr yn y maes polisi hwn.

Mae pob rhan o'r system addysg yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ac yn pontio'n llwyddiannus. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd gydgysylltiedig a chynhwysfawr tuag ddarparu cyngor personol, arweiniad, cefnogaeth a gwasanaeth cynllunio gyrfa diduedd. Gan weithio gyda'r Comisiwn, Gyrfa Cymru a'n darparwyr ôl-16, byddwn yn sicrhau bod gan bob dysgwr sy'n 16 oed ac sy'n dechrau ar addysg a hyfforddiant ôl-16 lwybrau sy'n diwallu eu hanghenion personol, eu diddordebau dysgu, eu dyheadau a'u hanghenion o ran iechyd a llesiant.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd y rhain yn rhan o ystyriaethau'r gyllideb yn y dyfodol ar gyfer CCAUC a'r Comisiwn.

**Argymhelliad 10**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu i'r Pwyllgor sut y bydd yn gweithredu'r argymhelliad o'r sector addysg ôl-16 i ystyried ffyrdd y gall prifysgolion weithio gyda cholegau / ysgolion ôl-16 lleol i gefnogi iechyd meddwl dysgwyr cyn iddynt bontio i addysg uwch.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r ymateb i argymhelliad 4 sy'n amlinellu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i gefnogi dysgwyr i bontio a'r adroddiad gwerthuso sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Bydd gan y Comisiwn ddyletswydd strategol i hyrwyddo dysgu gydol oes, cenhadaeth ddinesig, cyfranogiad mewn addysg drydyddol, a chyfle cyfartal.

Mae CCAUC wedi cyllido y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ers 2002/03. Dyma raglen gydweithredol i ehangu mynediad ledled Cymru sy'n cael ei harwain gan ddarparwyr addysg uwch ac sy'n gweithio gydag ysgolion, colegau ac mewn lleoliadau cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido prosiect mentora Ymgyrraedd yn Ehangach ledled Cymru gyda mentoriaid israddedig mewn ysgolion a cholegau sy'n cynnig cymorth Cymraeg a Saesneg.

Mae CCAUC wedi alinio'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach â dibenion y Cwricwlwm i Gymru a bydd yn ystyried map trywydd Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *Cenhadaeth ein cenedl | LLYW.CYMRU*.

Mae CCAUC hefyd wedi cyhoeddi datganiad sefyllfa ar ehangu mynediad i bobl o bob oed ac mae wedi cyhoeddi ei flaenoriaethau.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae hyn yn cael ei dalu o ddyraniadau cyllideb presennol a byddai'n rhan o ystyriaethau cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Llywodraeth Cymru i roi i'r Pwyllgor fanylion y grŵp cynghori ar bolisi traws-sector newydd ar iechyd meddwl mewn addysg drydyddol, yn cynnwys y cylch gorchwyl a'r aelodaeth, a sut y bydd yn helpu i lywio gwaith y Comisiwn wrth iddo gael ei sefydlu. Dylid rhoi diweddariad blynyddol ar waith y Grŵp hwn i'r Pwyllgor.

**Ymateb: Derbyn**

Mae grŵp cynghori ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a gadeirir gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, wedi'i sefydlu gan ddod â gweithwyr proffesiynol ar draws y sector trydyddol a'r sector iechyd ynghyd i sicrhau dull mwy integredig. Mae'r cylch gorchwyl ynghlwm yn atodiad A.

Diben y grŵp yw nodi ffyrdd er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd i fyfyrwyr myfyrwyr ôl-16, a chefnogi rhoi'r ffyrdd hynny ar waith. Yn ogystal â hyn, bydd yn sicrhau bod gan sefydliadau adnoddau cyson a hygyrch i gefnogi atal a/neu ymyrraeth gynnar.

Mae'r grŵp wedi'i sefydlu am chwe mis ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw bydd yn cael ei adolygu er mwyn ystyried effeithiolrwydd y dull gweithredu ac a oes angen iddo barhau.

Mae Ben Lewis, Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac aelod o'r bwrdd cynghori wedi'i gomisiynu fel cynghorydd polisi arbenigol i gyflawni tair ffrwd waith allweddol gyda'r dyddiad cau ym mis Hydref 2023.

**Goblygiadau Ariannol –** Mae cost comisiynu cynghorydd polisi arbenigol yn dod o dan y gyllideb adrannol.

**Argymhelliad 12**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru a CCAUC yn rhoi diweddariadau i'r Pwyllgor gyda manylion ynghylch lle mae cyllid y Prosiect Ôl-16 a Phontio wedi'i ddyrannu. Dylai'r gwerthusiad o effeithiolrwydd y gwariant ac unrhyw wersi a ddysgwyd neu arferion da a fydd yn cael eu rhannu ar draws y sector gael eu rhannu â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn**

Dyfarnwyd £600,000 i CCAUC i ddarparu rhaglen fentora er budd dysgwyr mewn cyfleusterau chweched dosbarth a sefydliadau addysg bellach ledled Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Mae mentora'n creu perthnasoedd rhwng cymheiriaid sy'n agos o ran eu cynnydd lle mae'r agosrwydd rhwng mentor a mentoreion yn caniatáu i fentoreion ehangu eu gorwelion. Mae'n creu cysylltiadau diriaethol â modelau rôl yn y brifysgol, gan leihau'r bwlch rhwng addysg ôl-16 ac addysg uwch, hwyluso pontio, a chwalu rhwystrau.

Ym mis Tachwedd 2022, dyfarnwyd grant gwerth £600,000 gan CCAUC i Brifysgol Bangor, fel partner arweiniol y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn y Gogledd a'r Canolbarth, i weithio ar y cyd â'r holl Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ledled Cymru a'u partneriaid, gan gynnwys ysgolion a cholegau, a chynllun mentora

Brightside i ddatblygu a chyflwyno cynllun mentora peilot drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 132 o fentoriaid wedi cael eu recriwtio o bob rhan o Gymru gan gynnwys mentoriaid Cymraeg eu hiaith a recriwtiwyd gyda chefnogaeth a hyfforddiant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hyn wedi galluogi 232 o fentoreion i gael mynediad at blatfform Brightside a chynnal sgyrsiau gyda mentoriaid.

Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £2.3 miliwn i CCAUC eleni er mwyn ehangu'r cymorth a ddarperir drwy strategaethau iechyd a llesiant sefydliadau. Gan gydnabod sut mae pwysau a phryderon ariannol yn effeithio ar iechyd meddwl, gofynnwyd i CCAUC flaenoriaethu cyllid ar ddatblygu a hyrwyddo gwasanaethau a chyngor ariannol ac i gydweithio ag undebau myfyrwyr i adolygu'r cymorth a ddarperir.

Yn wahanol i Loegr, ers 2019 mae gan bob un o'n prifysgolion strategaethau llesiant ac iechyd a strategaethau diogelu rhag hunanladdiad. Mae CCAUC yn monitro'r strategaethau hyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas at y diben.

Mae holl brifysgolion Cymru wedi mabwysiadu fframwaith Stepchange ar gyfer prifysgolion sy'n iach yn feddyliol a fframwaith diogelu rhag hunanladdiad Universities UK, ac mae CCAUC yn monitro a ydynt yn glynu wrth y fframweithiau hyn.

Bydd CCAUC yn cyflwyno adroddiad gwerthuso diwedd prosiect i Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2023.

**Goblygiadau Ariannol –** Ar hyn o bryd, nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol gan fod cyllidebau presennol yn darparu ar gyfer hyn.

**Argymhelliad 13**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Comisiwn yn blaenoriaethu sefydlu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol ar draws y sector addysg ôl-16. Wrth wneud hyn, bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor (yn flynyddol o leiaf) ar gynnydd o ran gweithredu'r dull hwn ar draws y sector.

**Ymateb – Derbyn yn rhannol**

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gyhoeddi Datganiad o Flaenoriaethau sy'n nodi'r disgwyliadau allweddol ar gyfer y Comisiwn a'r sector trydyddol. Mae cynnwys datganiad cyntaf Llywodraeth Cymru o'i disgwyliadau lefel uchel ar gyfer y Comisiwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ond, fel y mae'r pwyllgor yn ymwybodol, mae llesiant ac iechyd meddwl yn un o'r prif flaenoriaethau gweinidogol.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad yn rhannol fel a ganlyn. Rydym yn derbyn bod angen blaenoriaethu llesiant ac iechyd meddwl ar draws y sector ôl-16 yn yr un ffordd ag ar gyfer y sector cyn-16. Mae nifer o wahaniaethau rhwng y sectorau addysg cyn-16 ac ôl-16 a allai effeithio ar sut y gellir sefydlu dull 'system gyfan', gan gynnwys ymreolaeth gymharol sefydliadau, cyfrifoldebau statudol sefydliadau i blant ac oedolion yn y drefn honno, a'r modd y caiff darparwyr addysg gwahanol eu cyllido. Bydd angen ystyried hefyd sut y byddai'r fframwaith 'Stepchange' ledled y DU, sydd wedi'i fabwysiadu gan holl brifysgolion Cymru, yn cyd-fynd â hyn.

Er hyn, bydd y grŵp cynghori polisi traws-sector ar iechyd meddwl mewn addysg drydyddol, a sefydlwyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, yn ystyried yn benodol y ffyrdd y gallai dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl weithio yn y sector addysg drydyddol a byddwn wrth gwrs yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ddatblygiad y gwaith hwn.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 14**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Wrth ddatblygu'r amod cofrestru cefnogi lles myfyrwyr, dylai Llywodraeth Cymru, y Comisiwn a'r sector Addysg Uwch gydweithio i archwilio sut y gall sefydliadau gynorthwyo myfyrwyr i ddatgelu unrhyw gyflyrau iechyd meddwl. Gall hyn adlewyrchu enghreifftiau o arferion sy'n bodoli'n barod o ran cynnig sawl cyfle gydol y broses ymgeisio, sefydlu a chroesawu i fyfyrwyr ddatgan cyflwr iechyd meddwl sydd Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch ganddynt eisoes.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'i waith craffu ar y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, bydd yr amod cofrestru newydd yn cael ei ddatblygu gan y Comisiwn ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl statudol yn y gwaith hwnnw. Mae hi'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol wrth ddatblygu'r amodau. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn barn y Pwyllgor bod arferion da eisoes yn bodoli ymysg darparwyr ac y gellir elwa arnynt i wneud hynny, fel y mae'r argymhelliad yn ei gynnig. Byddwn yn ystyried yn ofalus bwysigrwydd lles myfyrwyr, fel un o'r prif flaenoriaethau gweinidogol, wrth baratoi'r Datganiad o'r Blaenoriaethau.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd angen i'r Comisiwn ystyried costau fel rhan o'i ddyraniad cyllideb.

**Argymhelliad 15**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Comisiwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer cymorth iechyd meddwl ar draws y sector addysg uwch. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau ei fod yn ymgysylltu â'r holl bartneriaid allweddol, ond yn enwedig myfyrwyr, wrth ddatblygu'r fframwaith hwn. Dylai'r fframwaith hwn nodi llinell sylfaen ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi sefydliadau i

ddylunio gwasanaethau sy'n ystyried eu cyd-destunau penodol eu hunain ac anghenion penodol eu myfyrwyr. Dylai adlewyrchu ac ategu hefyd unrhyw waith ehangach ar gymorth iechyd meddwl yn y sector ôl-16 yn ehangach.

**Ymateb – Derbyn**

Bydd yr amodau cofrestru a chyllido newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn nodi disgwyliadau clir ar gyfer prifysgolion a cholegau ynghylch effeithiolrwydd eu polisïau, eu gwasanaethau, a'u prosesau ar gyfer cefnogi a hyrwyddo llesiant, lles a diogelwch myfyrwyr a staff. Rydym yn rhagweld y bydd yr amodau cofrestru a chyllido newydd yn cwmpasu llawer o'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor, yn ogystal ag adeiladu ar y fframwaith 'Stepchange' a'r disgwyliadau presennol ar gyfer darparwyr addysg uwch a bennir gan CCAUC. Ynghyd â chyhoeddi'n briodol ganllawiau ac arferion gorau i ddarparwyr, bydd y gwaith hwn yn creu fframwaith cyffredin ar gyfer cymorth iechyd meddwl ar draws y sector addysg drydyddol, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Mater i'r Comisiwn fydd ystyried yr elfennau hynny o'r argymhelliad o ran sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd angen i'r Comisiwn ystyried costau fel rhan o'i ddyraniadau cyllideb.

**Argymhelliad 16**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru, wrth sefydlu rôl a chylch gwaith y Comisiwn, yn egluro'n glir y rôl y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei chwarae wrth rannu a lledaenu'n rhagweithiol arferion gorau ym maes cymorth iechyd meddwl ar draws y sector addysg uwch. Wrth gyflawni hyn, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod arferion da yn cael eu diweddaru ac yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn rhagweld y bydd casglu a lledaenu arferion da yn y sector yn rhan hanfodol o waith y Comisiwn wrth gyflawni'r amodau cofrestru a chyllido newydd a chyflawni dyletswyddau ehangach y Comisiwn fel y nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf. Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo cyfle cyfartal a llesiant myfyrwyr. Mae iechyd meddwl yn rhan o un o'r nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef anabledd.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 gyhoeddi Datganiad o Flaenoriaethau yn nodi'r disgwyliadau allweddol ar gyfer y Comisiwn a'r sector trydyddol. Mae cynnwys datganiad cyntaf Llywodraeth Cymru o'i disgwyliadau lefel uchel ar gyfer y Comisiwn yn y maes hwn wrthi'n cael ei ystyried a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Bydd gwaith y Comisiwn yn adeiladu ar waith y mae CCAUC eisoes wedi'i wneud i hyrwyddo arferion da a rhannu dulliau megis y fframwaith 'Stepchange' ac astudiaethau achos a restrir o dan ein hymateb i argymhelliad 9.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd angen i unrhyw gostau gael eu hystyried gan y Comisiwn fel rhan o'i raglen ehangach a'i ddyraniadau cyllideb.

**Argymhelliad 17**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad realistig o'r lefelau cyllid sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau cymorth effeithiol ac amserol sy'n seiliedig ar anghenion myfyrwyr. Ar ôl gwneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid digonol yn cael ei roi i CCAUC a thrwy gyllidebau'r GIG i gynorthwyo darparwyr addysg a gofal iechyd i gyflwyno cymorth lles meddyliol effeithiol i fyfyrwyr. Dylai cyllid digonol sicrhau bod cymorth effeithiol ar gael i bob myfyriwr pan fo'i angen a'i fod yn diwallu anghenion pob rhan o'r gymuned Myfyrwyr.

**Ymateb: Gwrthod**

Rydym yn cytuno â'r pwyllgor ynghylch pwysigrwydd gwasanaethau a ariennir yn ddigonol.

Gwrthodir yr argymhelliad yn syml oherwydd bod y Comisiwn wedi'i sefydlu yn benodol gan y Senedd i ariannu addysg drydyddol. Corff hyd braich fydd hwn a chanddo gyllideb sylweddol a ddarperir iddo gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei nodau strategol cyffredinol. Bydd yn gyfrifol am ddarparu cyllid priodol ar gyfer dosbarthiadau chweched mewn ysgolion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau, ymchwil ac arloesi, ac addysg uwch. Disgwyliwn y bydd y Comisiwn yn asesu'n barhaus y cyllid priodol sydd ei angen ar sefydliadau i ddarparu gwasanaethau ac y bydd mewn sefyllfa dda i gysylltu â'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i sicrhau y cynhelir lefelau gwasanaethau cyffredinol digonol ar gyfer cymorth iechyd meddwl.

**Goblygiadau Ariannol -** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol y rhaglen.

**Argymhelliad 18**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at gyllid tymor hwy ar gyfer cymorth iechyd meddwl, a dylai annog y Comisiwn i barhau â'r dull a fabwysiadwyd gan CCAUC i ddarparu ymrwymiadau ariannu tymor hwy. Dylai Llywodraeth Cymru ac yna'r Comisiwn ddatgan yn glir eu bwriad i gynnal y dyraniad cyllid blynyddol ar gyfer cymorth iechyd meddwl, ac ymrwymo i'r lefelau cyfredol o gyllid blynyddol o leiaf ar gyfer cylchoedd cyllido'r dyfodol fel y gall darparwyr addysg uwch gynllunio'u gwasanaethau'n fwy hyderus mewn modd hirdymor a chynaliadwy.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae llythyron cylch gwaith Llywodraeth Cymru at CCAUC wedi clustnodi £2 miliwn y flwyddyn ar gyfer iechyd meddwl a llesiant ac mae CCAUC wedi ymrwymo i gyllid hirdymor yn y maes hwn.

Byddwn yn cyhoeddi Datganiad o’r Blaenoriaethau yn nodi’r prif ddisgwyliadau ar y Comisiwn a’r sector trydyddol. Mae cynnwys y datganiad cyntaf o ddisgwyliadau lefel uchel Llywodraeth Cymru o’r Comisiwn wrthi’n cael ei ystyried ond, fel y mae’r pwyllgor yn ymwybodol, mae llesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr yn un o’r prif flaenoriaethau gweinidogol.

Mae’r Comisiwn hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau statudol sylweddol i hyrwyddo lles dysgwyr ac mae hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol sy’n adlewyrchu’r blaenoriaethau y mae’r pwyllgor yn tynnu sylw atynt yn ei argymhelliad.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd angen i unrhyw gostau gael eu hystyried gan y Comisiwn yn rhan o’i ddyraniadau cyllideb a’i raglen ehangach.

**Argymhelliad 19**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn newydd yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch mewn model partneriaeth gymdeithasol i sicrhau nad yw amodau gwaith, yn cynnwys amodau a thelerau cyflogaeth, yn tanseilio gallu staff i ddarparu cymorth effeithiol i fyfyrwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Mae dyletswydd ar y Comisiwn i hybu cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac undebau llafur perthnasol. Bydd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Comisiwn, i fynd ati i ymgysylltu â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu eraill sy’n cynrychioli staff fel partneriaid dilys wrth osod amcanion llesiant a cheisio eu cyflawni. Mae'n ofynnol hefyd i'r Comisiwn gael o leiaf dau yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol ac ymchwil fel aelodau cyswllt ar ei fwrdd. Fodd bynnag, ni fydd gan y Comisiwn bwerau i nodi gofynion ynghylch telerau amodau cyflogaeth yn y sector addysg uwch, sy'n cael eu cytuno'n genedlaethol rhwng undebau a chynrychiolwyr cyflogwyr.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

**Argymhelliad 20**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC, y Comisiwn newydd a’r sector ehangach i annog darparwyr i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrlon i bob aelod staff, sy’n ystyried cyd-destun a chorff myfyrwyr pob sefydliad unigol. Dylai hyfforddiant o’r fath rymuso staff i ddarparu cymorth priodol, yn cynnwys manylion y cymorth y gellir ei ddarparu gan y sefydliad a phartneriaid lleol eraill i alluogi cyfeirio effeithiol lle bo’n briodol. Dylai Llywodraeth Cymru annog pob darparwr i sicrhau bod hyfforddiant o’r fath ar gael i bob aelod staff, yn staff cymorth ac academaidd, ac i’r rhai sy’n darparu gwasanaethau ar gontractau allanol i’r sefydliad. Trwy gynnig

hyfforddiant o’r fath, dylai darparwyr sicrhau amser wedi’i neilltuo i staff fynychu hyfforddiant.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai darparu hyfforddiant iechyd meddwl i aelodau staff y sector fod yn ffordd bwysig o wella cymorth iechyd meddwl a chyfeirio o fewn sefydliadau. Mae CCAUC yn darparu cyllid i gefnogi hyfforddiant iechyd meddwl staff ac mae prifysgolion yn adrodd i CCAUC ar ddarparu hyfforddiant staff.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru annog darparwyr i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrlon i staff sy’n ystyried cyd-destun y sefydliad unigol a’i gorff myfyrwyr. Mater i’r Comisiwn fydd ystyried yr elfennau hynny o’r argymhelliad sy’n ymwneud â’i rôl ei hun ac rydym yn rhagweld y bydd yn rhoi ystyriaeth ofalus i gefnogi hyfforddiant staff wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â hyrwyddo lles dysgwyr.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 21**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid pellach i CCAUC ac yna’r Comisiwn i gynorthwyo i ehangu cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai’r cyllid hwn fod yn ymrwymiad parhaus i sicrhau hirhoedledd cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymateb: Derbyn**

Mae CCAUC yn parhau i ariannu prosiect Myf.Cymru, adnodd iechyd meddwl a llesiant wedi'i anelu at fyfyrwyr addysg uwch Cymraeg eu hiaith sy'n astudio yng Nghymru a thu hwnt. Gall myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ddefnyddio’r adnoddau hyn lle bynnag y maent yn astudio, hyd yn oed os ydynt yn astudio yn Lloegr.

Mae CCAUC wedi ariannu adnoddau cyfrwng Cymraeg Student Space. Mae Student Space yn ddiogel, yn gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim. Fe'i datblygwyd ar y cyd â gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg uwch, ymchwilwyr a myfyrwyr i ategu'r gwasanaethau presennol sydd ar gael i fyfyrwyr.

**Goblygiadau ariannol –** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o ddyraniadau cyllideb presennol.

**Argymhelliad 22**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag CCAUC, y Comisiwn newydd a'r sector ehangach i annog pob darparwr addysg uwch i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrlon i fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf o astudio. Dylid cyflwyno'r hyfforddiant hwn mewn amrywiaeth o ddulliau sy'n sicrhau ei fod yn hygyrch i bob myfyriwr, a dylid ei gynnig sawl gwaith gydol y flwyddyn gyntaf. Dylai Llywodraeth Cymru annog darparwyr i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y cyfle i fynychu'r hyfforddiant hwn.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai darparu hyfforddiant iechyd meddwl i fyfyrwyr fod yn ffordd bwysig o wella cymorth iechyd meddwl a chyfeirio o fewn sefydliadau. Mae prifysgolion yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant iechyd meddwl i fyfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau, gan gynnwys yn eu blwyddyn gyntaf, gan weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru annog darparwyr i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrlon i fyfyrwyr. Mater i'r Comisiwn fydd ystyried yr elfennau hynny o'r argymhelliad sy'n ymwneud â'i rôl ei hun ac rydym yn rhagweld y bydd yn rhoi ystyriaeth ofalus i hyfforddiant myfyrwyr wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â hyrwyddo lles dysgwyr.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 23**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn dechrau gwaith cwmpasu gyda'r GIG a'r sector addysg uwch i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r rolau a'r cyfrifoldebau ar draws gofal iechyd ac addysg ar gyfer lles meddyliol myfyrwyr. Rhaid i hyn gynnwys cytundebau ar drothwyon, iaith a diffiniadau. Unwaith y bydd y Comisiwn wedi'i sefydlu, dylent gymryd y prif gyfrifoldeb dros barhau â'r gwaith a sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddiweddaru ac yn adlewyrchu'r arfer cyfredol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gwybodaeth am wasanaethau'r Byrddau Iechyd Lleol, a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl cenedlaethol, ar gael ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol unigol ac ar wefannau cenedlaethol fel GIG 111. Drwy'r byrddau gweinidogol sydd wedi'u sefydlu i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno dull system gyfan tuag at ddarpariaeth iechyd meddwl ym maes addysg, byddwn yn meddwl am ffyrdd o addasu'r wybodaeth hon a'i rhannu er mwyn helpu darparwyr addysg a myfyrwyr i gael mynediad at wasanaethau. Bydd y Comisiwn mewn sefyllfa dda i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o rolau a chyfrifoldebau darparwyr addysg ochr yn ochr â hyn.

**Goblygiadau Ariannol -** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o ddyraniadau cyllideb presennol.

**Argymhelliad 24**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru, yn ei llythyr cylch gwaith cyntaf i'r Comisiwn, yn gofyn i'r Comisiwn arwain y gwaith o sefydlu protocolau rhannu data effeithiol rhwng darparwyr addysg uwch a'r GIG mewn perthynas â lles meddyliol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r sector a darparwyr y GIG eisoes yn archwilio cyfleoedd i wella'r broses o rannu gwybodaeth, data ac arferion da drwy'r cynllun peilot Gwasanaeth Cyswllt y Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd. Rydym yn rhagweld y bydd y Comisiwn mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y gwaith hwn, ar y cyd â darparwyr, Llywodraeth Cymru, a'r byrddau iechyd. Er hynny, bydd angen i'r gwaith hwn ystyried ffiniau deddfwriaeth diogelu data.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol y rhaglen.

**Argymhelliad 25**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru, CCAUC a'r Comisiwn newydd adeiladu ar y dysgu a'r gwerthusiad o'r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno'r model hwn yn llawn ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, dylai cyllid hirdymor gael ei ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflwyno, datblygu a chynnal a chadw'r model hwn ledled Cymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae hyn eisoes ar y gweill. Er mwyn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth yn y maes hwn, mae CCAUC wedi darparu £600,000 i Bartneriaeth Iechyd Meddwl De-ddwyrain Cymru i dreialu Gwasanaeth Cyswllt y Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yn 2019/20.

Mae'r model sydd wedi'i ddatblygu yn un yr ydym ni a CCAUC yn ei gefnogi ac am ei weld yn cael ei ddefnyddio'n fwy helaeth. Gwnaethom gomisiynu gwaith ar sut i gyflwyno hyn yn ehangach ac mae CCAUC yn awr wedi dechrau cynllunio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r model hwn ledled Cymru, gan ystyried canlyniadau gwerthuso y prosiect a'r arfarniad o opsiynau a gyflwynwyd iddo. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r heriau a'r adnoddau sydd eu hangen i greu dull Cymru gyfan sy'n cydnabod y gwahaniaethau daearyddol a'r gwahaniaethau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng darparwyr addysg uwch a'r byrddau iechyd.

Derbynnir yr argymhelliad mewn egwyddor gan ein bod yn cydnabod y byddai angen ymrwymo rhagor o gyllid yn y tymor hir i ymestyn y bartneriaeth yn genedlaethol, gan estyn y tu hwnt i gyfnod gweithredu y bartneriaeth a chyfnod gweithredu y Comisiwn.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd goblygiadau o ran y gost yn parhau i gael eu hasesu. Bydd angen rhagor o gyngor i ddilyn mewn perthynas â sut y byddai'r Comisiwn yn parhau â'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 26**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y fersiwn nesaf o'r Strategaeth Iechyd Meddwl ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig yn gorfod sicrhau bod sefyllfa benodol myfyrwyr yn cael ei hystyried, a bod cyfleoedd yn cael eu nodi i fynd i'r afael â'r bwlch strategol a pholisi wrth ddod â'r darparwyr gofal iechyd ac addysg ynghyd.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd iteriad nesaf Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru a'r canllawiau cysylltiedig yn ystyried anghenion pawb gan barhau i ganolbwyntio ar fynediad cynhwysol a thegwch o ran gofal. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol wedi'i sefydlu i ystyried cymorth iechyd meddwl mewn addysg ôl-16 a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad y strategaeth ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu cadarn â rhanddeiliaid a fydd yn rhoi'r cyfle i bawb, gan gynnwys myfyrwyr a darparwyr addysg, ddylanwadu ar y strategaeth.

**Goblygiadau Ariannol –** Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru.

**Argymhelliad 27**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau blynyddol neu lle mae datblygiadau arwyddocaol i'r Pwyllgor am berfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel y mae'n ymwneud â chymorth iechyd meddwl i blant, pobl ifanc ac unrhyw fyfyrwyr addysg uwch yn ardal y Bwrdd Iechyd.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd ar berfformiad pob un o'r byrddau iechyd yng Nghymru yn erbyn targedau a bennwyd yn y Mesur Iechyd Meddwl ac, fel rhan o ddatblygu'r set ddata iechyd meddwl graidd, byddwn yn ehangu'r wybodaeth hon sydd ar gael.

Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei rhoi dan fesurau arbennig ym mis Chwefror 2023 yn dilyn pryderon difrifol ynghylch arweinyddiaeth, diwylliant a mesurau llywodraethu, ymysg pethau eraill. Mae'r rhain yn faterion difrifol sy'n gyffredin ar draws y sefydliad gan gynnwys y meysydd hynny sy'n gyfrifol am gymorth iechyd meddwl i blant, pobl ifanc a myfyrwyr addysg uwch. Mae'r mesurau arbennig hyn yn golygu rhagor o graffu a goruchwylio gan Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth newydd y GIG. Fel rhan o'r gwaith goruchwylio hwn bydd nifer o adroddiadau a diweddariadau a fydd yn ymgorffori iechyd meddwl.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim.

**Argymhelliad 28**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dichonoldeb dull cyffredin o gofrestru gyda meddyg teulu ar draws Cymru gyda’r nod o safoni sut y gwneir hyn ledled Cymru. Fel rhan o’r astudiaeth hon, rhaid ystyried dichonoldeb cyflwyno cofrestru gyda meddyg teulu ar-lein. Dylid adrodd canfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb o’r fath i’r Pwyllgor ar ôl ei chwblhau, a’u gwneud yn gyhoeddus.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai cofrestru gyda meddyg teulu fod mor syml â phosibl ac y dylai'r broses hon fod yn gyson ledled Cymru i sicrhau mynediad teg. Ar hyn o bryd mae ffurflen Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol 1 (GMS1) safonol i’w llenwi i gofrestru gyda meddygfa yng Nghymru (a Lloegr).

Fel rhan o'n gwaith o gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, byddwn yn parhau i hyrwyddo negeseuon allweddol ynghylch cofrestru gyda meddygon teulu, gan gynnwys:

- gall unrhyw un yng Nghymru gofrestru gyda meddyg teulu ar gyfer triniaeth;
- nid yw’n angenrheidiol cael cyfeiriad sefydlog na dull adnabod i gofrestru;
- gall unrhyw un sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu gael presgripsiynau am ddim; a
- mae gan unrhyw un sydd angen cyfieithydd ar y pryd yr hawl i ofyn am un heb unrhyw gost iddo ef ei hun. Mae dyletswydd ar feddygfeydd i ddarparu cyfieithydd, ac mae gwasanaethau cyfieithu ar y ffôn ar gael ym mhob meddygfa.

Yn ystod hydref y llynedd, roedd ein hymgyrch 'Helpwch ni i’ch helpu chi' ar gyfer y cyhoedd yn targedu negeseuon ynghylch sut i gofrestru gyda meddyg teulu i fyfyrwyr a oedd yn cyrraedd prifysgolion yng Nghymru. Cyrhaeddwyd dros 30,000 o fyfyrwyr yn ystod y cyfnod sefydlu. Fe wnaeth y gweithgaredd ymgysylltu hwn hefyd bwysleisio sut i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl.

Rydym yn ymwybodol o raglen waith GIG Lloegr i gyflwyno opsiwn cofrestru ar-lein optio i mewn ar gyfer meddygfeydd a byddwn yn ceisio dysgu o hyn. Bydd angen i unrhyw brosesau cofrestru ar-lein yng Nghymru yn y dyfodol gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach yr offer mynediad digidol a’r Safonau Mynediad GMS presennol. Byddwn yn comisiynu ymchwil pellach ar anghenion mynediad pobl yng Nghymru yn ystod 2023-24 ac yn ystyried manteision cofrestru ar-lein fel rhan o'r project ymchwil hwn. Byddwn yn rhannu'r adroddiad ymchwil gyda'r pwyllgor pan fydd ar gael.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd cost ariannol i’r ymchwil pellach ar anghenion mynediad. Mae hyn wedi'i gymeradwyo fel rhan o gyllideb Datblygu Gofal Sylfaenol 2023-24.

**Argymhelliad 29**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd i’r Pwyllgor am weithredu’r prosiect meddyg teulu i feddyg teulu. Dylid darparu’r diweddariadau hyn yn flynyddol o leiaf.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r prosiect meddyg teulu i feddyg teulu yn cael ei arwain gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW). Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â DHCW i gyflwyno diweddariadau rheolaidd am y prosiect a bydd y rhain yn flynyddol o leiaf.

**Goblygiadau Ariannol -** Dim.

**Argymhelliad 30**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dichonoldeb sefydlu pasbort myfyrwyr a fyddai’n galluogi myfyrwyr i rannu eu gwybodaeth am ofal iechyd yn haws, ac a fyddai’n helpu i liniaru rhai o’r heriau penodol sy’n wynebu poblogaeth hynod symudol. Fel rhan o’r gwaith dichonoldeb hwn, dylid cefnogi cynllun peilot, gyda’r nod o’i gyflwyno ledled Cymru os yw’r cynllun peilot yn llwyddiannus.

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Bydd y prosiect meddyg teulu i feddyg teulu yn hwyluso dull symlach o gludo gwybodaeth am iechyd meddwl rhwng mannau preswylio. Hefyd, mae canllawiau trosglwyddo Llywodraethau Cymru yn nodi y dylai pobl ifanc sy’n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) gael cynllun pontio a throsglwyddo (a elwir hefyd yn 'Basbort Pobl Ifanc' yng ngwasanaethau CAMHS) ar gyfer pobl ifanc sy'n symud rhwng gwasanaethau fel bod eu llwybr rhwng gwasanaethau yn glir a'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i ddarparwyr gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn golygu na fydd raid i bobl ifanc adrodd eu stori ddwywaith. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau Iechyd Meddwl i roi'r canllawiau trosglwyddo ar waith a sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu mabwysiadu fel arferion da.

Yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) yw'r un cofnod iechyd sy'n dwyn ynghyd ddata ar wahân mewn un lle. Gellir defnyddio ap (a gwefan) GIG Cymru i roi gyflwyno’r data hyn i ddinasyddion Cymru, gan eu galluogi hwy i rannu â phartïon perthnasol lle bo hynny'n briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu sut mae modd hyrwyddo'r ap, a’i addasu lle bo angen fel bod modd ei ddefnyddio'n effeithiol o fewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ymchwilio i'r synergeddau rhwng canllawiau trosglwyddo Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynllun pontio a throsglwyddo (a elwir hefyd yn 'Basbort Pobl Ifanc' yng ngwasanaethau CAMHS) i bobl ifanc sy'n symud rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion fel bod

eu llwybr rhwng y gwasanaethau hyn yn glir a'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i ddarparwyr gwasanaethau - mae hefyd yn golygu na fydd raid i bobl ifanc adrodd eu stori ddwywaith.

**Goblygiadau ariannol -** Dim

### Argymhelliad 31

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn yr ymateb i'r adroddiad hwn a yw Byrddau Iechyd erbyn mis Ebrill 2023 wedi gwneud y gwelliant sylweddol a ddisgwylir ganddynt mewn perthynas ag amseroedd aros CAMHS. Os nad yw Byrddau Iechyd wedi gwneud y gwelliannau, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau y gwneir y gwelliannau angenrheidiol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae cwrdd ag amseroedd aros CAMHS yn parhau i fod yn her ac mae gwasanaethau yn nodi cleifion â mwy o gymhlethdod ac sydd angen gofal mwy dwys, ynghyd â phwysau ar y gweithlu. Er y pwysau hyn, ac yn dilyn cael cyllid ychwanegol, mae'r byrddau iechyd yn gwneud cynnydd. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer mis Chwefror 2023 yn dangos bod dros 90% o'r rhai sydd ar y rhestr aros bresennol ar gyfer gwasanaethau CAMHS arbenigol yn cael eu gweld o fewn 28 o ddiwrnodau o gael eu cyfeirio. Oherwydd yr amrywiad mewn perfformiad, comisiynwyd Uned Gyflawni'r GIG (sydd bellach yn rhan o'r Weithrediaeth) i gynnal adolygiad o CAMHS. Mae pob bwrdd iechyd bellach wedi cael adroddiadau unigol a byddant yn datblygu cynlluniau gwella. Mae Gweithrediaeth y GIG hefyd yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i ddatblygu llwybrau perfformiad newydd i naill ai gynnal neu wella perfformiad presennol.

**Goblygiadau ariannol –** Mae £5 miliwn yn rhagor wedi'i ddyrannu yn 2023/24 drwy'r Gronfa Gwella Gwasanaethau ar draws gwasanaethau iechyd meddwl a fydd yn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn.

### Argymhelliad 32

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad mewn ymateb i'r adroddiad hwn ar y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r set ddata graidd iechyd meddwl yn cynnwys: pryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau, pryd fydd y data newydd yn dechrau cael ei gasglu, a sut y bydd yn cael ei gyhoeddi. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi a fydd y newidiadau'n sicrhau bod data'n cael ei gasglu ar apwyntiadau dilynol. Os na fydd, dylai Llywodraeth Cymru Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch 15 nodi sut y caiff perfformiad ar apwyntiadau dilynol ei reoli a'i fonitro gan Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru, a sut maent yn rhagweld y bydd y Senedd yn gallu craffu ar y mater hwn.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Un o’r meysydd gwaith allweddol yw cryfhau data iechyd meddwl. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn sawl maes ac, yn hollbwysig, wrth i wasanaethau newydd gael eu sefydlu.

Mae'r gwaith ar y set ddata graidd iechyd meddwl yn parhau i gael ei wneud drwy'r Bwrdd Mesurau Canlyniadau a Data Iechyd Meddwl sy'n adrodd i'r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach, sefydlwyd Grŵp Technegol ac mae'n adrodd i'r Bwrdd Mesurau Canlyniadau a Data Iechyd Meddwl. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys arweinwyr digidol/perfformiad byrddau iechyd ac mae'n canolbwyntio ar ymarferoldeb casglu a rhannu data.

Cydnabyddir bod sefydlu set ddata lawn yn gymhleth ac rydym yn blaenoriaethu eitemau data penodol ar bob cam i sicrhau bod unrhyw ddata a gesglir yn gadarn ac yn addas i'r diben, gyda'r ffocws cychwynnol ar ddata atgyfeiriadau a derbyniadau. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu data demograffig, fel oedran, rhywedd ac ethnigrwydd, a fydd yn cefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth.

Rydym yn deall yr angen i gael data ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac rydym yn gweithio tuag at gael dangosfwrdd cenedlaethol cychwynnol ar weithgarwch iechyd meddwl erbyn mis Medi. Yna byddwn yn ehangu'r data hwn sydd ar gael yn raddol wrth i'r set ddata graidd ddatblygu. Erbyn mis Rhagfyr, byddwn hefyd yn casglu set gytunedig o fesurau profiad cleifion yn genedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 33**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithredu’r holl argymhellion yn adroddiad Sortiwch y Switsh Mind Cymru, ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd o ran gweithredu’r argymhelliad hwn.

**Ymateb: Gwrthod**

Ni all Llywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn ar y sail nad yw holl argymhellion Sortiwch y Switsh yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r rhaglen waith sydd ar y gweill i wella gwasanaethau pontio yn dilyn adolygiadau diweddar. Gallwn roi sicrwydd i’r Pwyllgor ein bod wedi ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad Sortiwch y Switsh ond rydym wedi gwneud hynny ochr yn ochr â'n hadolygiad pontio ni ein hunain a oedd yn cynnwys ymgysylltu uniongyrchol â phobl ifanc yn ogystal â thystiolaeth arall y mae angen ei hystyried hefyd. Mae MIND Cymru yn parhau i ymgysylltu fel rhan o'r broses hon. Mae ateb manylach yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor ar y mater hwn ac mewn ymateb i'r llythyr a ddilynodd sesiwn graffu benodol ar y mater pwysig hwn.

**Goblygiadau Ariannol -** Dim.

ANNEX A

**Grŵp Cynghori (Cenedlaethol) ar Iechyd Meddwl ar gyfer**

**Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch**

**Cylch Gorchwyl**

**Prif Gyflawniadau**

• Darparu set o gyngor a chamau gweithredu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru

• Sefydlu dull cenedlaethol o wella mynediad at gymorth iechyd meddwl o fewn gofal sylfaenol ar gyfer myfyrwyr addysg ôl-16 ledled Cymru

• Sefydlu dull cyson o ymdrin ag atgyfeiriadau a chymorth iechyd meddwl ar draws y sectorau addysg ôl-16 a'r GIG

• Nodi'r bylchau neu'r rhwystrau o ran hyfforddiant ac adnoddau i arfogi myfyrwyr i hunanreoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant

**Diben a Chwmpas y Grŵp**

Diben y Grŵp yw mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

• Pa rwystrau sy'n bodoli i atal myfyrwyr ôl-16 rhag cael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau cymorth cywir a sut y gellir eu goresgyn?

• Beth (arall) y gall sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ei wneud i gefnogi atal a/neu ymyrryd yn gynnar?

Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Grŵp yn:

• Adolygu pa rai o'r argymhellion a nodir yn y cynigion polisi iechyd meddwl ôl-16 y dylid eu blaenoriaethu, a chytuno ar yr argymhellion hynny

• Nodi unrhyw gamau y gellid eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion brys a nodwyd

• Gweithredu fel rhyngwyneb rhwng y sector iechyd a'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch – gan ganolbwyntio ar nodi rhwystrau a sicrhau mynediad teg at gymorth lle bo angen

• Meddu ar wybodaeth sy'n benodol i'r sector, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil a gweithgareddau ym maes Iechyd Meddwl ac Addysg

• Cynghori ar ddefnyddio data a gesglir yn rheolaidd ar draws y sectorau a sut y gall lywio gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

• Ystyried yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi’r gwaith o gyflwyno dull cenedlaethol

DS Nid grŵp penderfynu yw hwn. Rôl y Grŵp yw darparu cyngor i lywio penderfyniadau gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant.

**Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd a sut y cânt eu rheoli**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod i ddechrau ar 6 Chwefror 2023 ac yna’n cyfarfod bob dau fis ar ôl hynny.

Bydd pob cyfarfod yn cael ei drefnu ymlaen llaw ac yn cael ei gynnal drwy Teams neu wyneb yn wyneb pe bai’n well gan aelodau. Ni fydd y cyfarfodydd yn para mwy na dwy awr.

Hyd: Bydd y Grŵp yn cael ei sefydlu am gyfnod o chwe mis ac ar ddiwedd y chwe mis bydd yn cael ei adolygu i ystyried effeithiolrwydd y dull.

Cyhoeddir papurau ar gyfer y cyfarfod (ynghyd â’r diweddaraf ar gamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol) dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ysgrifenyddiaeth y cyfarfodydd.

**Cadeirio’r cyfarfodydd**

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant.

**Aelodaeth o’r Grŵp**

Bydd yr aelodaeth yn cynnwys uchafswm o ddeg aelod. Mae aelodau wedi’u dewis yn seiliedig ar eu harbenigedd ym maes iechyd meddwl a llesiant a’r sectorau addysg bellach ac addysg uwch, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau myfyrwyr.

**Bydd aelodaeth o’r Grŵp yn cynnwys:**

Cadeirydd – Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Llesiant

Orla Tarn – Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

Ben Lewis – Cadeirydd Cymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr Cymru a Chyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Ann John – Athro Gwyddor Data Iechyd

Amanda Wilkinson – Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru

David Hagendyk – Prif Weithredwr Colegau Cymru

Jane Johns – Pennaeth Ehangu Mynediad a Chynhwysiant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Angela Jones – Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Alex Slade – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl

Sinead Gallagher – Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Uwch

Karron Williams – Uwch-reolwr Polisi Ansawdd ac Effeithiolrwydd

Matt Downton – Pennaeth Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed

Os na all aelodau ymuno â chyfarfodydd, mae croeso iddynt anfon dirprwy ar eu rhan neu roi sylwadau ymlaen llaw drwy e-bost.

**Trefniadau Adrodd**

Gofynnir i aelodau, sydd â'r dasg o gwblhau gweithgareddau i gefnogi gwaith y Grŵp, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ysgrifenyddiaeth yn unol ag amserlen y cytunwyd arni.

Bydd y Grŵp yn adrodd ar ei gyflawniadau ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis.